# Cyngor gwych wrth gyflwyno Bookbuzz Uwchradd i'ch myfyrwyr

BookTrust Bookbuzz

Dyma rai ffyrdd y gallech chi gyflwyno Bookbuzz Uwchradd i'ch myfyrwyr yn eu sesiynau llyfrgell neu ddosbarthiadau Saesneg.

- Lawrlwytho ac argraffu copïau o'r cwis **Beth yw fy hoff genre**? o Ardal Cydlynwyr Bookbuzz Uwchradd i helpu'ch myfyrwyr i hidlo eu dewis o'r casgliad llawn.
- Gwylio **Ffilm Bookbuzz Uwchradd 2025** a chlywed yr awduron yn cyflwyno'u llyfrau i'ch myfyrwyr. Mae'r ffilm yn adnodd gwych i gefnogi myfyrwyr i ddewis eu hoff deitl.
- Rhannu'r crynodeb hirach o bob llyfr gyda'r myfyrwyr i roi mwy o wybodaeth iddyn nhw am y casgliad, chwiliwch **Booktrust.org.uk/Bookbuzz/books** (Yn Saesneg).
- Lawrlwytho **PowerPoint Llyfrau Bookbuzz Uwchradd** o Ardal Cydlynwyr Bookbuzz Uwchradd. Rhowch y cyflwyniad ar y sgrin ac annog y myfyrwyr i drafod pa lyfr sy'n apelio atynt. Rydyn ni wedi creu canllawiau trafod byr i helpu gyda hyn.
- Ar ôl i'r myfyrwyr ddod yn gyfarwydd â'r llyfrau a'u bod wedi gwneud eu dewis, gallan nhw farcio pa lyfr yr hoffen nhw ei gael ar eu **llyfrnod Fy Newis**. Yna gallwch gadw'r llyfrnodau nes eich bod chi'n barod i archebu.

Ar ôl i chi gasglu'r **Llyfrnodau Fy Newis** gan y myfyrwyr, gallwch lawrlwytho ac argraffu copi o Ffurflen Archebu Dosbarth o Ardal Cydlynwyr Bookbuzz Uwchradd, yna nodwch ddewis pob myfyriwr cyn gosod eich archeb.

**Cadwch y ffurflen a'r Llyfrnodau Fy Newis yn ddiogel a rhowch label ar lyfr pob myfyriwr pan fydd yn cyrraedd.**

